

Oes llifogydd wedi effeithio arnoch chi? Rhestr o bethau a allai helpu Gan un o drigolion Llanelwy

Pan fu llifogydd yma, dyma rai o'r pethau yr hoffwn fod wedi eu gwybod. Dydw i ddim yn arbenigwr, dim ond rhywun fel chi sydd wedi dioddef. Ond rwy'n ystyried fy mod wedi dod drwy'r llifogydd, ac ymhen amser byddwch chi hefyd.

1. Bydd pethau'n gwaethygu cyn gwella – peth ofnadwy i'w ddweud, ond mae'n wir.
2. Gallwch ddisgwyl bod allan o'ch tŷ am fwy na chwe mis, ac os na, bydd hynny'n fonws.
3. Tynnwch luniau i'r gogledd, y de, y dwyrain a'r gorllewin ac o'r llawr i'r nenfwd ym mhob stafell, a'r tu mewn i bob sied a garej. A pheidiwch ag anghofio'r porth, yr ardd a'r stafell wydr.
4. Gwnewch nodyn o rif cyfresol pob eitem drydan neu tynnwch lun o'r rhif.
5. Torrwch ddarn hanner metr sgwâr oddi ar bob carpet yn eich tŷ a'u cadw rywle heblaw yn y tŷ. Bydd hynny'n helpu wrth wneud hawliad yn y dyfodol.
6. Edrychwch i weld a yw'r dafnod/groglofft yn llaith oherwydd bydd lleithder yn codi.
7. Pan fydd plastr yn cael ei dorri oddi ar y waliau, CAEWCH y drws bach i'r dafnod/groglofft, neu bydd llwch yn mynd i mewn ac yn creu llastr i'r defnydd inswleiddio.
8. Rhowch stop ar y biliau cyfleustodau i gyd a gwneud nodyn o'r darlleniad diwethaf neu dynnu llun ohono.
9. Rhestrwch gynnwys pob stafell a gofyn i rywun edrych ar y rhestr, oherwydd byddwch chi'n siŵr o anghofio rhywbeth.
10. Rhowch stop ar daliad sefydlog y bil nwy oherwydd ni fyddwch yn ei ddefnyddio nes ichi symud nôl i'r tŷ.
11. Rhowch stop ar dreth y cyngor – mae Cyngor Sir Ddinbych yn rhagorol.
12. Trefnwch gyfrif banc arall er mwyn i'r arian o'r yswiriant allu mynd i mewn i hwnnw, gan gadw'ch arian ar wahân.
13. Trefnwch gerdyn credyd newydd er mwyn i bopeth y byddwch yn ei brynu fynd ar hwnnw, oherwydd bydd rhaid ichi dalu blaendal ar bethau cyn i arian yr yswiriant gyrraedd. Bydd hyn yn help ichi wybod faint o arian sydd gennych wrth law.
14. Bydd y sychu'n cymryd tua 50 diwrnod ac ni fydd yr adeiladwyr yn cychwyn cyn cael tystysgrif sych. Bydd y bil am y trydan, a fydd yn cael ei dalu gan y cwmni yswiriant, yn costio rhwng £700 a £900. Hwyrach y bydd arnoch angen rhif polisi arall er mwyn cadw pethau ar wahân ar gyfer eich llety rhent dros dro.
15. Fyddwch chi ddim yn barod i ddechrau cynllunio'r stafell ymolchi na'r gegin eto, felly, peidiwch â cheisio gwneud hynny. Does dim angen eto, beth bynnag.
16. Os oes gennych loriau pren, mynnwch gael pren newydd. Peidiwch â gwranddo ar unrhyw un fydd yn dweud y bydd isgarped yn gwneud yr un gwaith.
17. Byddwch hefyd am i'r adeiladwyr glirio'r llaid allan o seiliau'r tŷ, neu bydd ffwng yn ymddangos a bydd angen chwistrellu'r seiliau i ladd y ffwng.
18. Os oedd gennych bren ar y loriau gynt, mae gennych hawl i gael pren eto. Peidiwch â chytuno i gael y byrddau sglodion y bydd y cwmni yswiriant yn eu cynnig.
19. Mae gennych berffaith hawl i gael pethau newydd sbon sydd yr un fath yn lle pethau sydd wedi'u difrodi.
20. Bydd angen codi teils cerameg oddi ar y loriau a'r waliau mewn stafelloedd ymolchi, ac ati, oherwydd bydd dŵr wedi mynd y tu ôl i'r teils ac ni fydd y waliau'n gallu sychu os bydd rhywbeth yn eu gorchuddio.
21. Bydd angen i'r plastr ddod i ffwrdd, a hefyd y bordiau ar hyd gwaelod y waliau, y fframiau o gwmpas y drysau a'r drysau eu hunain. Bydd y rhain wedi'u dinistrio os ydyn nhw wedi'u gwneud o bren. Ni fydd yn bosibl defnyddio rheiddiaduron eto oherwydd bydd rhwd yn dechrau ffurfio arny'n nhw.
22. Bydd niwed ychwanegol gan ddŵr yn digwydd.

23. Ymhen ychydig fisoedd gallwch ddechrau edrych am ddodrefn, oherwydd fel rheol bydd oedi o 12-16 wythnos cyn iddo gyrraedd.
24. Dri mis wedi'r digwyddiad byddwch yn gallu dechrau rhoi trefn ar eich tŷ eto a meddwl am liwiau, carpedi, gwelyau a dodrefn. Dechreuwch gadw manylion gwefannau dodrefn, a phan fydd y cwmni yswiriant yn dechrau gofyn beth sydd arnoch ei eisiau, bydd y costau ac ati gennyh yn barod.
25. DOES DIM RHAID ichi dderbyn talebau siopau.
26. Peidiwch â gadael i'r cwmni yswiriant eich trechu. Bydd rhaid ichi ymladd ac mae hynny'n galed. Mae angen i rywun fod yn gryf: byddwch yn gwrtais ond yn gadarn.
27. Os bydd pethau wedi mynd o le gyda'ch yswiriant, meddylwch am gael canolwr colledion annibynnol, oherwydd bydd hwnnw'n gweithio i chi, nid i'r cwmni yswiriant. Bydd canolwr colledion eich cwmni yswiriant yn gweithio i'r cwmni yswiriant ac yn ceisio arbed arian i hwnnw.
28. Peidiwch â gwyllo'ch dodrefn yn cael ei daflu ar y sgip sbwriel, oherwydd mewn rhai ffyrdd mae hynny'n waeth na'r llifogydd eu hunain. Yn arbennig, peidiwch â gadael i'r plant weld.
29. Gwnewch nodyn yn eich llyfr ffôn o enwau pawb fyddwch chi'n delio â nhw, e.e. Jim yr adeiladwr, Phil y dyn trydan, ac ati. Byddwch yn cysylltu â nhw'n aml yn y misoedd i ddod.
30. Cofiwch eich bod yn galaru am golli cartref a'ch holl eiddo, felly, peidiwch â cheisio ymatal. Dydw i ddim wedi cyfarfod â neb nad ydyn nhw wedi 'wylo dagrau hallt' pan fydd llifogydd wedi bod yn eu tŷ.
31. Bydd cwmnïau yswiriant yn dadlau ynglŷn â thalu am unedau isaf yn unig yn y gegin, nid am yr unedau ar y wal. Mynnwch eich ffordd ynglŷn â hyn: fedrwch chi ddim cael unedau isaf ac unedau wal sy'n edrych yn wahanol.
32. Bydd pethau'n dod yn haws, ond mae'n ffordd ddyrys.
33. Tynnwch luniau o'r dreif at y tŷ cyn i'r sgipiau sbwriel gyrraedd, oherwydd bydd yna nifer o sgipiau trymion a byddant yn niweidio'r dreif.
34. Byddwch yn gallu gwneud hawliad am y dillad roeddech yn eu gwisgo pan ddigwyddodd y llifogydd, felly, cadwch dderbynebaw am yr eitemau fu'n rhaid ichi eu prynu.
35. Lluniwch daenlen ar eich cyfrifiadur o'r holl symiau fyddwch chi wedi'u gwario yn y mis cyntaf. Byddwch yn synnu at y cyfanswm.

Dim ond wrth ichi symud yn ôl i'ch tŷ y byddwch yn dechrau meddwl sut i ddiogelu'ch tŷ. Mae gorchuddion dros friciau awyru yn syniad da, ac mae yna ddrysau PVC sy'n edrych fel drysau eraill ond sy'n ddrysau llifogydd. Mae'r rheiny'n ddrud. Mae yna sachau tywod gwastad y gallwch eu prynu o'r un defnydd â chlytiau plant, ac maen nhw'n sugno dŵr. Dydy bagiau tywod dim yn gallu atal dŵr rhag dod i mewn i'ch eiddo, ond gallant ei droi i gyfeiriad arall neu ei ddal yn ôl nes ichi fynd allan o'r tŷ. Mae yna bethau i atal eich toiled a'ch uned gwastraff, ond maen nhw'n ddrud, a bydd pêl-droed neu bêl tenis dda yn gweithio'n wych.

Pob dymuniad da i chi.